



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 19.10.2016

Wythnos Fioleg

Nododd y 10fed o Hydref ddechrau Wythnos Fioleg 2016 Y Gymdeithas Fioleg Brenhinol gyda @ybmbiol yn gwahodd Dr. Natasha de Vere, Pennaeth Gwyddoniaeth Y Gerddi Botaneg i'r ysgol i siarad am ei gwaith. Cafwyd prynhawn difyr yn ei chwmni yn clywed am y gwaith o ddarganfod dilyniant DNA pob planhigyn yng Nghymru er mwyn diogelu'r gwahanol rywogaethau i'r dyfodol. Clywsom hefyd am y gwaith o ddiogelu'r wenynen fêl sydd yn hollbwysig ar gyfer peillio planhigion o bob math gan gynnwys prif gnydau bwyd y byd. Ysbrydolwyd nifer o'r disgyblion hefyd wrth glywed am waith Natasha yng nghoedwig glaw Borneo o le'r oedd hi newydd ddychwelyd ar ôl tair wythnos o waith cadwraeth.

Ar ddydd Mawrth tro'r disgyblion i gael eu dwylo'n frwnt oedd hi. Y testun dan sylw oedd "DNA - Rhyfeddod bywyd"; gyda'r disgyblion yn cael cyfle i astudio'r molecwl arbennig hwn wrth echdynnu DNA o fefus. Cwis cafwyd ar ddydd Mercher gyda chriw brwd yn brwydro am y wobr eleni. "Y byd anweledig" oedd sylw gweithgareddau dydd lau lle gafodd y disgyblion gyfle i edrych ar wahanol sbesimenau o gelloedd ac organebau ungellog o dan ficrosgop.



Eleni eto, profodd bore dydd Gwener yn ddiweddglo lliwgar gyda chystadleuaeth "Y Bake-off Biolegol." Daeth casgliad anhygoel o gacennau i law, gyda'r eisin a'r ffondant yn cael ei ffurfio mewn i wahanol sbesimenau biolegol. Roedd y safon yn eithriadol o uchel gyda'r beirniaid Mrs. Non Knott a Mr Tim Hayes yn penderfynu wedi hir bendroni bod Megan Jones a Josh Elvy yn fuddugol ym mlwyddyn 7-9, Anya Fearn gyda'i chynrychiolaeth o lygoden fawr yn ennill ym mlwyddyn 10-11 a Marci o Banedini yn dod i'r brig yng nghystadleuaeth y Chweched a'r Staff.

Mae lluniau'r holl gynigion ar safle Trydar yr ysgol @YGGBM. Diolch i bawb a bu'n ymwneud â'r holl weithgareddau.

Hwyl yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog

Cafwyd tridiau ardderchog ar y daith bontio i ddisgyblion blwyddyn 7 i wersyll yr Urdd Llangrannog ganol mis Medi eto eleni.

Bu'r tywydd yn garedig dros ben ac fe welwyd bae Ceredigion ar ei orau yn wir!

Braf oedd cael y cyfle i wneud ffrindiau newydd yn ogystal â phrofi gweithgareddau amrywiol y gwersyll. Braf yn ogystal, oedd cael gweld chwaraewyr 7 bob ochr Cymru yn ymarfer a datblygu eu sgiliau a chwarae teg iddyn nhw am roi o'u hamser i ddod i ffarwelio a ni!



Diolch yn fawr iawn i diwtoriaid blwyddyn 7 am eu gofal, y Swogs o flwyddyn 13 am eu cyfraniad ac i ddisgyblion blwyddyn 7 am eu hymddygiad penigamp.

Dyma ddechrau da - Pawb wedi mwynhau!

Taith Pontio blwyddyn 7 i Langrannog

Ar ein hail wythnos fel disgyblion newydd blwyddyn 7 Bro Myrddin buom ar gwrs pontio i Langrannog. Roedd hyn yn amser cyffroes i ni oherwydd roedd yn gyfle i ni fynd o adref a threulio amser gyda hen ffrindiau ac i wneud ffrindiau newydd. Roedd y siwrne ar y bws i Langrannog yn un hir a chynnes



gan fod y tywydd yn braf iawn. Ar ôl tuag awr roeddwn wedi cyrraedd o'r diwedd. Roedd Mrs Davies wedi rhoi ni yn ein hystafelloedd cysgu a bant a ni i'r gweithgareddau cyntaf. Yn ein grŵp roedd gyda ni bedwar swog o flwyddyn 13, Aiden Jones, Sion Roberts, Beca Philips a Sioned Beynon. Roedd y swogs yn hwyl ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau gyda ni.

O fewn y ddau ddiwrnod cawsom gyfle i wneud llawer o weithgareddau - Saethyddiaeth, beicio modur, sgïo, marchogaeth a chyrsiau antur. Roedd y gweithgareddau yn llawer o hwyl ac yn annog ni i weithio fel tîm. Yn y nos roeddwn yn ymarfer ar gyfer ein heitem ar gyfer yr eisteddfod. Aiden a Sion oedd yn helpu ni yma ac roedd y dosbarth wedi penderfynu arddangos amrywiaeth o dalentau. Roedd Olivia, Scarlett, Heather, Sophie, Mae, Bethan a Emma yn gwneud gymnasteg. Roedd y bechgyn yn gwneud sgiliau pêl droed a fflipio poteli. 'Free style' oedd Mrs Jenkins yn galw ein heitem. Ar y diwedd roedd y tiwtoriaid yn rhoi sgôr allan o 10 i bob eitem a ni 7-3 oedd wedi cael y sgôr uchaf ac ennill yr eisteddfod. Roedd y profiad yn un da iawn oherwydd roedd wedi rhoi cyfle i ni i ddod i adnabod ein cyd ddisgyblion.

Adroddiad gan Katie Jones 7-3

Codi arian i elusennau “Jeans for Genes” a Bore coffi Macmillan

Ar ddydd Gwener y 23^{ain} o Fedi, cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod “Jeans for Genes” er mwyn codi ymwybyddiaeth ar gyfer yr elusen sydd yn helpu plant efo anhwylder genetig.



Ar achlysur arall daeth aelodau o staff a chweched Bro Myrddin at ei gilydd ar fore Gwener y 30^{ain} o Fedi 2016 i gymryd rhan yn more Coffi Macmillan.

Hyfryd oedd gweld y llyfrgell yn llawn a diolch i bawb wnaeth ddangos ei gefnogaeth ac i'r disgyblion a staff oedd wedi bod yn brysur yn coginio cacennau. Codwyd £550 i'r elusen sy'n agos i galonnau llawer ohonom.

Adroddiad gan Lewis Jones

Aelodau Cyngor Ysgol 2016-2017

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd yn aelodau o'r cyngor ysgol 2016-2017.

Blwyddyn 7 - Gwenno Ellis Jones ac Ifan Knott

Blwyddyn 8 – Lucy Davies a Oliver Percey

Blwyddyn 9 -Anwen Thomas a Scott Davies

Blwyddyn 10- Bethan McFayden ac Ioan Tillman

Blwyddyn 11 -Alice Morris a Rhys Jones

Blwyddyn 12 -Caryl Jones, Ceris James, Garmon Dyfri a Rhys O Evans

Blwyddyn 13 -Greta Llŷr, Bethan Lewis, Carwyn Bebb a Rhodri Williams

Dymuniadau gorau iddynt am y flwyddyn.

Banc Bwyd Gaerfyrddin



Yn dilyn ein gwasanaeth Diolchgarwch, derbyniodd yr ysgol nifer o gyfraniadau tuag at fanc bwyd Caerfyrddin. Ar fore Mercher, 19 o Hydref aeth criw o'r chweched dosbarth i'r banc bwyd i drosglwyddo'r nwyddau. Cawsom ein tywys gan un o wirfoddolwyr y ganolfan ac eglurodd bwysigrwydd ac angenrheidrwydd y bwyd i deuluoedd lleol. Roeddent yn ddiolchgar dros ben am ein cyfraniad o Ysgol Fro Myrddin eto eleni.

Gwasanaeth Diolchgarwch

I gloi hanner tymor yr Hydref cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yn yr ysgol. Agorwyd y gwasanaeth gyda Carwyn Bebb yn croesawu'r Parchedig Beti Wyn James i rannu neges y gwasanaeth o ddiolch. Cawsom ein swyno ar ddechrau'r gwasanaeth gydag eitem gerddorol gan fand yr Ysgol dan arweiniad Mrs Scaife.

Cafwyd darlleniadau gan y prif swyddogion Carwyn Bebb, Sioned Beynon, Elen Davies, Cai Evans, Greta Llŷr ac Osian McAvoy. Cafwyd eitem gerddorol gan y Côr Iau - "Miwsig yn ein Calon" dan arweiniad Mrs Nia Evans a Mrs Meinir Richards yn cyfeilio. Diolch i bawb am eu cyfraniad ac yn enwedig i'r Parchedig Beti Wyn James am ei neges ddiddorol a phwrpasol.



Crys Cymru

Cyflwynwyd crys rygbi wedi ei arwyddo gan dîm Cymru yn ddiweddar i'r ysgol gan y Principality sydd wedi sefydlu dosbarth busnes gyda'r ysgol. Yn y llun hefyd mae cynrychiolwyr o ysgol y Strade a dderbyniodd yr un anrheg.

Cystadleuaeth saethu

Llongyfarchiadau i dim saethu yr ysgol a fu'n rhan o gystadleuaeth Genedlaethol yn ddiweddar. Llwyddodd Megan Jones a Steffan Herdman i gyrraedd y rowndiau terfynol a gwobrwywyd Megan, Jac a Celyn gyda medal arian yn ei grŵp. Fe fyddant yn cystadlu yn y gemau terfynol Cenedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Ionawr. Yn y llun mae Jac Lewis, Celyn Yate, Taryn Williams, Megan Jones, Owen Howell a Thomas Jones. Yn absennol o'r llun mae Steffan Herdman.



Pencampwyr sgïo

Llongyfarchiadau i dîm sgïo Ysgol Bro Myrddin sydd wedi dod yn bencampwyr Ysgolion Cymru unwaith eto sef Aiden Jones, Owen Llewelyn Jones, Huw Butterworth a Rhys Owen. Da iawn chi!!

Pencampwyr rhanbarth Scarlets tîm rygbi Merched



Llongyfarchiadau i dîm merched dan 18 Bro Myrddin am ddod yn bencampwyr Rygbi rhanbarth Sgarlets ar ddydd Mawrth Hydref y 18fed.

Canlyniadau Chwaraeon Mis Hydref

Gem Rygbi 13eg o Hydref

Rygbi BL7 (A) - yn ennill YBM 45 - 12 Bryngwyn

Rygbi BL7 (B) - yn ennill YBM 35 - 0 Bryngwyn

Rygbi BL9 yn ennill YBM 65 - 0 Bryngwyn

Gemau Pêl -rwyd yn erbyn Dyffryn Aman 12fed o Hydref

Bl.7a - colli 7-5

Bl.7b - ennill 10-3

Bl.7c - colli 1-0

Bl.8a - ennill 14-4

Bl.8b - ennill 12-2

Hoci

Bl.10 - colli 3-1

11eg o Hydref

BL9-10 Merched YBM 0 - 4 Coedcae

BL8 Bechgyn YBM 3 - 2 Coedace

Gemau dydd Mawrth 11eg o Hydref

Top schools o dan 16 hoci

BM 0 - Dyffryn Taf 0 Cyfartal

BM 0 - Bro Dinefwr 5 Colli

Pel-rwyd yn erbyn Coedcae

Bl.7 ennill 9-5

Bl.8 ennill 9-1

6ed o Hydref Bechgyn

Rygbi BL10 ennill QEH 17 - 27 YBM

Rygbi BL8 ennill QEH 10 - 42 YBM

Hydref 7fed Cwpan Y Llywydd o dan 18

Dyffryn Aman 9 v bro myrddin 7

Llanymddyfri 14 v bro myrddin 8

5ed o Hydref

Pêl droed: BL9 YBM 6 - 2 Bryngwyn

Rygbi: Tîm cyntaf: YBM 43 - 0 Coleg Sir Gar 2nds

Pêl-rwyd yn erbyn Maes Y Gwendraeth 4ydd o Hydref

Bl.10a colli 11-7

Bl. 10b ennill 8-7

Bl. 9a colli 11-3

Bl. 9b colli 6-2

Bl. 8a colli 8-7

Bl. 8b ennill 7-3

4ydd o Hydref Rygbi

BL7 A YBM 52 - 0 QEH

BL7 B YBM 57 - 0 QEH

BL9 YBM 62 - 10 QEH